

CARTREFI I GYMRU GYFAN



Homes for all Cymru
Cartrefi i Gymru Gyfan

**Maniffesto i roi terfyn ar yr
argyfwng tai i bawb yng Nghymru**





CARTREFI I GYMRU GYFAN

Cartrefi i Gymru Gyfan yw llais y sector tai a digartrefedd yng Nghymru. Rydym yn bartneriaeth trydydd sector o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael mynediad i gartref diogel a gwirioneddol fforddiadwy.

Mae'r sefydliadau sy'n aelodau yn cynnig ystod eang o arbenigedd, gwasanaethau a chymorth – gan gynnwys darparu llety yn uniongyrchol, darparu cymorth i atal digartrefedd, cynnig cyngor annibynnol ar dai, ac eiriol dros bobl a effeithiwyd gan yr argyfwng tai yng Nghymru.



Ein cartref yw sylfaen ein bywyd.

Mae cael cartref diogel yn gwella ein hiechyd, yn rhoi cyfleoedd gwell i ni ac yn ein galluogi i feithrin cysylltiadau yn ein cymunedau i'n cefnogi ar bob cam o daith bywyd.

Ers degawdau, nid yw cartrefi wedi cael y flaenoriaeth wleidyddol yng Nghymru fel y dylent, ac mae'r sefyllfa dai yn awr mewn argyfwng. Argyfwng y gellid fod wedi'i osgoi ac y gellir ei ddatrys.

Er bod ymdrechion derbynol wedi'u gwneud i ddatrys rhai heriau, y gwir yw ein bod yn wynebu argyfwng sydd mor fawr ag erioed. Rydym wedi cyrraedd sefyllfa lle mae miloedd o bobl wedi eu dal mewn llety dros dro; lle mae pobl sy'n rhentu'n breifat yn cael trafferth talu rhent bob mis a'r gost yn cynyddu a mynd yn anfforddiadwy; lle mae bod yn berchen ar eich cartref yn teimlo fel breuddwyd na ellir byth ei gwireddu i lawer o bobl; lle mae dros 170,000 o bobl wedi eu dal ar restr aros am dŷ cymdeithasol.

Mae ein sefydliadau'n gweithio bob dydd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghymru. Maen nhw'n helpu'r miloedd o bobl sy'n cael trafferth heddiw ac yn cynnig atebion i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu teimlo'n hyderus yn eu gallu i gael gafael ar a chynnal cartref diogel, addas.

Rydyn ni'n gwybod bod yna gynllun all symud Cymru allan o'r argyfwng tai presennol, pe bai pob plaid wleidyddol yng Nghymru yn ymrwymo i wneud cartrefi yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru.

Mae Monitor Digartrefedd Cymru 2025 gan Crisis yn ein sicrhau bod gobaith, os byddwn yn mynd ati yn awr i ddechrau cymryd camau i'r cyfeiriad cywir.

Mae'r model yn dangos y bydd achosion o ddigartrefedd craidd yn parhau i godi yng Nghymru os na chaiff y polisïau eu newid, tra byddai'r camau gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eu cymryd yn haneru'r achosion o ddigartrefedd yn y dyfodol.



Rhoi diwedd ar yr argyfwng tai – dyma’r flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru.

Fel llais cyfunol sefydliadau tai a digartrefedd y trydydd sector, mae Cartrefi i Gymru Gyfan yn gwybod nad oes ateb cyflym all ddod â'r argyfwng tai i ben. Rydym hefyd yn gwybod bod modd atal digartrefedd ac y gellir sicrhau cartrefi diogel, addas a fforddiadwy i bawb yng Nghymru.

Mae newid yn bosibl.

Mae Cartrefi i Gymru Gyfan yn galw ar i bob plaid ymrwymo i dri o gamau beiddgar ond realistig a fydd yn ein helpu i ddod â'r argyfwng tai i ben.

Tri cham a fydd yn cael effaith eang ar bobl a chartrefi ym mhob rhan o Gymru.



1. Darparu'r cartrefi cymdeithasol angenrheidiol yn gyflym, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Rhaid i'r llywodraeth newydd ymrwymo i gynnydd net o flwyddyn i flwyddyn mewn cartrefi cymdeithasol yng Nghymru, ar sail y galw presennol am gartrefi cymdeithasol.

I gyflawni hyn, rhaid iddynt ystyried y gwersi a ddysgwyd yn nhymor y Senedd hon, a rhoi blaenoriaeth i ddymchwel y rhwystrau presennol o ran cyflawniad ychwanegol a sicrhau'r cyllid angenrheidiol i sicrhau bod gan Gymru rwydwaith cynaliadwy ar gyfer darparu cartrefi cymdeithasol.

Mae ymchwil gan Shelter Cymru, sy'n defnyddio data a gasglwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn dangos bod mwy na 94,000 o aelwydydd ar hyn o bryd yn aros am gartref cymdeithasol – 1 ym mhob 14 aelwyd yng Nghymru.

O'r rhain mae dros 13,000 yn bobl hŷn sy'n aros am dai gwarchod ac mae mwy na 27,000 yn deuluoedd â phlant dibynnol. Gellir, a rhaid gwneud mwy i amddiffyn pawb yng Nghymru rhag wynebu ansicrwydd tai a digartrefedd.



2. Ymgorffori atebion cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am weithredu'r Bil Digartrefedd a Dyraniadau Tai Cymdeithasol. Mae Cartrefi i Gymru Gyfan yn croesawu'r ffocws ar atal digartrefedd a chynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill, a dulliau seiliedig ar drawma o gefnogi ymgeiswyr fel y nodir yn y Bil. Ynghyd â buddsoddi mewn cartrefi cymdeithasol, bydd angen buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau hanfodol ac yn y bobl sy'n eu darparu - yn enwedig drwy'r Grant Cymorth Tai, y Grant Atal Digartrefedd a chyllid ar gyfer awdurdodau lleol - er mwyn cyflawni nodau'r Bil hwn a sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.

Mae sgysiau Cymorth Cymru gyda staff tai a digartrefedd rheng flaen yn tynnu sylw at y "storm berffaith" a grëwyd gan gyflogau isel a'r costau byw cynyddol. Meddai un aelod: "Rwy'n cefnogi pobl nawr sy'n gorfod penderfynu a ddylent fwyta neu wresogi ac rwyf finnau'n eistedd yno yn meddwl yr un peth."

Dywedodd dwy ran o dair o'r gweithwyr proffesiynol tai a arolygwyd yn ddiweddar gan CIH Cymru, ar gyfer eu ciplun sector yn 2025, fod pwysau allanol fel diffyg adnoddau, llwythi gwaith uchel a lleihau'r gweithlu yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Nid yw risg ac effaith ansicrwydd tai yn effeithio ar bawb yn gyfartal.

Mae gwaith End Youth Homelessness Cymru wedi nodi bod un o bob pedwar o bobl ifanc sy'n profi digartrefedd yn uniaethu fel LHDTG+.

Mae ymchwil gan Tai Pawb wedi tystio bod digartrefedd a thai sy'n is na'r safon yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau du a lleiafrifol yng Nghymru.

3. Gosod gweledigaeth a strategaeth hirdymor fel bod cartref addas, diogel a gwirioneddol fforddiadwy yn hawl ac yn realiti i bawb yng Nghymru.

Am gyfnod rhy hir, mae'r camau a wneir o ran tai a digartrefedd wedi cael eu gyrru gan y sefyllfa o argyfwng a grëwyd gan ein hargyfwng tai. Mae Cartrefi i Gymru Gyfan yn deall pwysigrwydd ein cartref fel sylfaen ar gyfer bywyd iach a boddhaol i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol nodi strategaeth glir, wedi'i phrisio gyda cherrig milltir allweddol er mwyn sicrhau mai cartrefi addas, diogel, o ansawdd da a gwirioneddol fforddiadwy i bawb, ar draws pob deiliadaeth, yw'r nod yr ydym yn symud tuag ato'n rhagweithiol. Strategaeth sydd wedi'i gwreiddio mewn cydraddoldeb, cynhwysiant a phrofiadau byw ein cymunedau amrywiol yng Nghymru.

Gwyddom fod yr argyfwng tai yn effeithio'n anghymesur ar y bobl hynaf a'r ieuengaf yng Nghymru.

Mae Gofal a Thrwsio Cymru yn cefnogi pobl hŷn i fyw mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch. Mae ymchwil iechyd yn nodi y gallai gwella tai o ansawdd gwael leihau derbyniadau i'r ysbyty 39% ar gyfer cyflyrau cylchrediad ac ysgyfaint gan arwain at ostyngiad hyd at 50% mewn afiechydon anadlol.

Yn arolwg cenedlaethol Age Cymru o bobl 50 oed a throsodd yng Nghymru, dywedodd 22% o bobl hŷn fod angen atgyweirio eu tŷ.

Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan yn taflu goleuni ar effaith llety dros dro ar blant yng Nghymru, gyda risgiau posibl i'w hiechyd corfforol, eu lles a'u datblygiad.



Cartref yw Popeth.

Mae Cartrefi i Gymru Gyfan yn cydnabod bod cost yn gysylltiedig â phob un o'r mesurau hyn, a hynny ar adeg pan fo cyllidebau llywodraethau cenedlaethol a lleol yn cael eu hestyn i'r eithaf.

Ond mae'r dystiolaeth yn glir: Mae ein cartrefi yn effeithio ar bob rhan o'n bywydau. Maent yn effeithio ar ein hiechyd, ein lles, ein cyswllt â chyfleoedd fel addysg a chyflogaeth. Yn y pen draw, mae buddsoddi mewn cartrefi yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl, ar draws ystod o feysydd, ac mae hyn yn ei dro yn darparu arbedion ac effeithlonrwydd i gyrff sector cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod pob aelwyd sy'n profi digartrefedd yn costio £20,000 i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn costau uniongyrchol. Yn ogystal, mae Alma Economics yn cyfrifo bod costau ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus o £4,700 yr aelwyd.

Mae cyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu hestyn flwyddyn ar ôl blwyddyn i gefnogi pobl leol sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau a wneir ym Mae Caerdydd a San Steffan. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'i gilydd yn talu bron i £100 miliwn bob blwyddyn mewn costau llety dros dro yn unig.

Ar wahân i effeithiau ariannol digartrefedd, mae tai o ansawdd gwael yn ychwanegu at y straen ar y GIG yng Nghymru. Mae tai is na'r safon yn costio tua £95 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn mewn costau triniaeth uniongyrchol. Amcangyfrifir bod effaith economaidd ehangach tai o ansawdd gwael tua £1 biliwn y flwyddyn.

Ynghyd â'n cyfrifoldebau o ran pobl yng Nghymru, mae'r achos ariannol dros fuddsoddi mewn cartrefi, yn enwedig fel llwybr ar gyfer atal afiechyd, yn ddiamheuol. **Bydd buddsoddi mewn cartrefi yn lleddfu pwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus, ar dimau iechyd a chynghorau, ac yn eu helpu i ddiwallu anghenion ein cenedl yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**





Mae ein sefydliadau'n croesawu'r cyfle i siarad â chynrychiolwyr o bob plaid cyn etholiad nesaf y Senedd.

Rydym yn gwybod bod sicrhau bod yna gartrefi diogel, addas i bawb yn fater hanfodol a phosibl.

